Cyngor Cymuned Radur a Threforgan

Ystafelloedd Yr Hen Eglwys
Ffordd y Parc
Radur
Caerdydd
CF15 8DF

UWCH CLERC & SWYDDOG ARIANNOL CYFRIFOL (Rh/A)

Cyngor: Cyngor Cymuned Radur a Threforgan

Sir: Caerdydd

Cyflog: Pwynt graddfa NJC 24 i 28 (£28,672 i £32,234 pro-rata, yn amodol ar ddyfarniad tâl ar gyfer 2021/22)

Mae Cymuned Radur a Threforgan am benodi unigolyn hunanysgogol a threfnus a fydd yn gallu dod â phrofiad i'r swydd o Uwch Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol.

Mae hon yn swydd ran-amser o 23 awr yr wythnos - yn gweithio o'n swyddfa yn Hen Ysgoldy'r Eglwys (Radur) gyda rhai cyfarfodydd rheolaidd gyda'r nos. Mae'r gallu i'r unigolyn siarad Cymraeg yn ddymunol ond ddim yn hanfodol.

Mae prif ddyletswyddau'r swydd yn gofyn am bresenoldeb yn holl gyfarfodydd y Cyngor, paratoi'r agendâu, cymryd cofnodion, ymdrin â phob gohebiaeth, gweithredu'r penderfyniadau'r cyngor, cadw'r wefan yn gyfredol - a gweithredu fel swyddog ariannol cyfrifol y Cyngor tra'n cynnal yr holl gofnodion ariannol. Bydd y swydd hefyd yn cynnwys cysylltu â Chyfrifydd Ymgynghorol y cyngor ynglŷn â materion ariannol a goruchwylio gwaith y Clerc Cynorthwyol.

Yn ddelfrydol, bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn gymwysedig i safon CiLCA (Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cynghorau Lleol), ond rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr addas sy'n barod i astudio ar gyfer hyn.

Rhaid gwneud cais am y swydd drwy CV a llythyr atodol.

Mae manylion pellach a disgrifiad swydd ar gael gan Mrs J Hopkins (y Clerc Cynorthwyol): e-bost: clerk@radyr.wales neu ar 02920 842 213.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 5 Tachwedd 2021.

Cynhelir cyfweliadau yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar: Dydd Llun 15 Tachwedd, 2021.